Cylch Meithrin Terrig
Adroddiad Ariannol am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025
Financial Report for the year ended 31 March 2025

	£		£
Balans ddygwyd ymlaen / Balance b/fwd			
Current account	4,924.07		
Acc 2	12,821.49		
Acc 3	206.22		
Derbyniadau / Income		**Taliadau / Expenses**	
Ffioedd / Fees	61,395.88	Cyflogau / Salaries	111,563.89
30 Hour Offer	41,137.50	TWE/PAYE	19,601.91
Flying Start	21,335.45	NEST	4,861.54
Codi arian/Fundraising	472.25	Eraill/Other	4,706.82
Cyfle Cynnar / Early Entitlement	12,018.90	Payroll	800.60
Grantiau / Grants	2,675.83	Bwyd & Diod / Food & Drink	8,382.85
Llog/Interest	117.31		
ALN	7,449.75	Offer / Equipment	1,986.13
	---		---
	146,602.87		151,903.74
		Balans i gario ymlaen / Balance c/fwd	
		Current account	6,790.73
		Acc 2	5,651.06
		Acc 3	209.12
	---		---
	164,554.65		164,554.65
	---		---

Cadeirydd / Chairperson

Trysorydd / Treasurer

Cylch Meithrin Terrig
Adroddiad Ariannol am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025
Financial Report for the year ended 31 March 2025

Tystysgrif Arolygwr / Independent Examiner Report

Archwilwyd y derbyniadau a thaliadau gennym ynghyd a'r adroddiad uchod a tystiwn eu bod yn unol a'r llyfrau a'r talebau perthnasol.

We have examined the receipts and payments together with the above statement and testify that they are in accordance with the relevant books and vouchers.

Cyfrifwyr Hill & Roberts

20/01/26.

Dyddiad /Date

CYLCH MEITHRIN TERRIG

ADRODDIAD ARIANNOL BLYNYDDOL

01/04/24 -30/03/25

RHIF ELUSENNOL 1206679

CYLCH MEITHRIN TERRIG

YSGOL TERRIG

FFORDD Y LLAN

TREUDDYN

YR WYDDGRUG

SIR Y FFLINT

CH7 4LN

Person gofrestredig – NIA CONNAH

Cadeirydd – Nia Connah

Is-Gadeirydd – Melanie Williams

Ysgrifenyddes – Helen Morgan

Trysorydd – Gwenda Smith

Nod ac Amcanion

Prif amcan Cylch Meithrin Terrig yw i roi gofal ac addysg cyn-ysgol i blant Treuddyn a'r ardal sydd rhwng 2 a 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol ag athroniaeth Mudiad Meithrin a safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer sessiynau dyddiol.

Cylch Meithrin

Cylch gofal dydd yw Cylch Meithrin Terrig yn darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar o'r ansawdd uchaf mewn awyrgylch cynnes a chyfeillgar. Mae'r Cylch yn darparu gweithgareddau a phrofiadau o fewn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen a bydd y plant yn dysgu drwy chwarae ac yn cael profiad yn y meusydd canlynol.

- Datblygiad personnol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- Sgiliau iaith, llythrennol a chyfathrebu
- Datblygiad mathemategol
- Datblygiad creadigol
- Datblygiad corfforol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.

Oriau agor y Cylch ydy 7.45am -5.45pm dydd Llun I ddydd Gwener drwy'r flwyddyn ond ar gau rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Cynhelir sesiynnau addysgol Cyfle Cynnar o 9yb i 11.30yb am bedair bore yr wythnos i blant 3 oed. Rydym yn cydweithio yn agos gyda Ysgol Terrig ac yn dilyn sesiwn Meithin yr ysgol, all plant fynychu'r cylch ble mae cyfle iddynt gymdeithasu a dysgu. Mae plant dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 yn cael mynychu'r Cylch ar ol ysgol.

Mae'r Cylch wedi ei gofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer uchafswm o 28 o blant i bob sesiwn. Derbynnir arolwg AGC ac Estyn yn rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn roedd uchafsum o 37 o blant ar y gofrestr.

Mae Cylch Meithrin Terrig yn cael ei redeg gan bwyllgor o rieni a rhai a cysylltiadau â'r ysgol. Nid ydynt yn derbyn tâl na braint am eu gwaith gwirfoddol. Mae'r pwyllgor yn cael ei ethol yn ystod y cyfarfod blynyddol (AGM).

Cyflogir 9 aelod o staff yn ystod y cyfnod ariannol gyda chefnogaeth Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin yn ogystal ag ymweliadau gan Athrawes Gysylltiol Cyfle Cynnar. O dro I dro defnyddiwyd staff cyflenwi.

Mae'r trefniadau staffio yn cydymffurfio â gofynion Arolygaeth Gofal Cymru.

Staff

Cyflogir Rheolwr i'r Cylch i leihau baich y pwyllgor.

Ti a Fi

Mae Ti a Fi yn cynnig gweithgareddau sy'n helpu datblygiad plant o enedigaeth hyd at oed ysgol. Mae'n gyfle i rieni a warchodwyr gwrdd i chwarae gyda'u plant ac i gymdeithasu mewn awyrgyll Gymraeg. Mae croeso I deuluoedd Cymraeg a di-Gymraeg ym mhob sesiwn Ti a Fi.

Mae'r Ti a Fi yn cael ei redeg gan aelod o staff y Cylch sy'n hwyluso'r pontio o'r grwp Ti a Fi I'r Cylch Meithrin drwy ddod i adnabod aelodau staff y Cylch.

Codi Arian

Mae gweithgareddau codi arian yn cael eu cynllunio ar adegau er mwyn sicrhau bod digon o arian yn y gronfa.

Eleni penderfynwyd i roi fwy o bwyslais ar hybu'r cylch er mwyn codi'r nifer yn mynychu'r Cylch.

Grantiau

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd ambell i grant gan Cyngor Sir y Fflint . Derbyniwyd grant o £1,000 gan Community Foundation.

Cronfa

Cedwir cronfeydd at gostau rhedeg o ddydd i ddydd yr elusen a'r bwriad yw i gael o leiaf pedwar mis o wariant mewn llaw ond oherwydd nifer isel o blant elenni nid yw hynnu wedi bod yn bosib.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw derbyniwyd incwm o £146,602.87. Roedd gwariant o £151,903.74.

Roedd £12,660.91 yn y banc ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.